OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2015 Rhif 1710 (Cy. 225) (C. 103)

# TAI, CYMRU

# LANDLORD A THENANT, CYMRU

Rheoliadau Deddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015 (Cychwyn) (Cymru) 2015

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn dwyn i rym o ran Cymru, ar 1 Hydref 2015, adrannau 35 a 36 o Ddeddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015 ("y Ddeddf"). Mae'r adrannau hynny yn Rhan 2 (diwygio rheoleiddio) o'r Ddeddf yn diwygio Rhan 2 o Ddeddf Landlord a Thenant 1954.

Drwy eu cychwyn, mae'r darpariaethau yn eithrio busnesau cartref rhag y diogelwch deiliadaeth a roddir i denantiaid mangreoedd sydd wedi eu meddiannu at ddibenion busnes. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i denantiaid gael caniatâd i ddefnyddio mangreoedd at ddibenion busnes mewn cytundeb tenantiaeth, ac i landlordiaid adfer meddiant o'r mangreoedd pan ddaw tenantiaeth o'r fath i ben.

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2015 Rhif 1710 (Cy. 225) (C. 103)

# TAI, CYMRU

# LANDLORD A THENANT, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015 (Cychwyn) (Cymru) 2015

*Gwnaed* *21 Medi 2015*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 164(5) o Ddeddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015 (Cychwyn) (Cymru) 2015.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015.

**Y diwrnod penodedig**

**2.** 1 Hydref 2015 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dwyn y darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym—

(a) adran 35 (eithrio busnesau cartref rhag Rhan 2 o Ddeddf Landlord a Thenant 1954); a

(b) adran 36 (adran 35: darpariaeth atodol a chanlyniadol).

(**1**) 2015 p. 26.

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, un o Weinidogion Cymru
21 Medi 2015